COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 2 o DACHWEDD 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Alan Lewis,Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams,Caroline Williams,Aled Williams,Geraint Rosser,Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Tracey James Heddwyn Jones a Geoff Hewitt

2457 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2458 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 05/10/2020 fel rhai cywir.

2459 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2443 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Mae Ymgynghorwyr Cynllunio wedi eu hapwyntio gan y Cyngor Sir.Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir
Tud 1. Cofnod Rhif 2443- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2443 - Goleuadau Tai Ffoslas - Aros am ymateb oddiwrth Gwmni Persimmon.
Tud 1. Cofnod Rhif 2443 - Llwybr Treftadaeth Pontiets - Arhoswn am ymateb oddiwrth Bassett & McGregor.
Tud 1. Cofnod Rhif 2443 – Cwn stwrllyd – Mae'r mater yn nwylo'r Adran Iechyd yr Amgylchedd yn y Cyngor Sir.
Tud 2. Cofnod Rhif 2443 - Cyflymder Traffig trwy Grwbin a Llangyndeyrn - Mae'r mater yn nwylo'r Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2460 Cerebal Palsy Cymru (Bobath) – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2461 Bethel Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2462 Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100

Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams a Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2463 Neuadd Carwe – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Ian,Aled a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod

2464 Cylch Meithrin Carwe – Llythyr y diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2465 Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio 2020-21 – Nodwyd y Llythyr.

2466 Traws Link Cymru – Ymgyrch Rheilffordd Gorllewin Cymru – Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2467 a) Rhif y Cais – PL/00456 – Brynbach,Crwbin – Estyniad a Garej– Dim Gwrthwynebiad

Cynghorwr Linda Williams Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

b) Rhif y Cais - PL/00523 – Banc,Llangyndeyrn – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Margaret Rees yn y gadair

Gwaharddiad y Cyhoedd

2468 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2469 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Hydref 2020.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2470 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Hydref)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Hydref)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Hydref)
ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Hydref)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Hydref)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Hydref)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Hydref)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Hydref) - £12.56
ff) Torri Gwair – Mis Hydref - £50.00
g) Excel Electrics – Gwaith ym Marc Carwe - £54.00
ng) Stampiau- £18.24
h) Excel Electrics – Gwaith ym Marc Carwe - £84.00

2471 Cofeb Rhyfel Pontiets
Cafwyd adroddiad gan y Clerc a gohiriwyd y mater tan y cyfarfod nesaf.

2472 Ciosg Ffon – Heol y Meinciau - Pontiets
Nodwyd nad oedd BT yn barod i werthu'r Ciosg

2473 Parc Pontiets - Sleid
Diolchwyd i'r Cynghorwr Meic Bowen am sicrhau bod y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau.

2474 Parc Pontiets
a) Derbyniwyd cais oddiwrth Grŵp Gwella Cymuned Pontiets yn gofyn am gynrychiolwyr o'r Cyngor i ymuno gyda hwy er lles adnewyddu cyfleusterau Parc Pontiets.Enwebwyd y Cynghorwyr Linda Williams.Meic Bowen a Geraint Rosser.
b) Penderfynwyd chwilio am amcan brys gosod llawr newydd o dan siglenni'r Parc

2475 Parc Gwynfryn
Gobeithir y bydd y gwaith o osod yr offer newydd, a ofynnwyd amdano gan Blant Ysgol Gwynfryn, yn y Parc yn dechrau yn gynnar ym Mis Tachwedd.

Cyfarfod nesaf:- 7fed o Rhagfyr 2020

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……